

# CYFATHREBU CLIR A CHYSON

**Cyngor doeth ar gyfer darparu cyfathrebu clir a chyson.** Bydd cael cyfathrebu clir a chyson yn eich helpu i rannu'r negeseuon hollbwysig hynny heb unrhyw ddryswch ac yn eglur, gan feithrin ymddiriedaeth yn eich clwb. Mae'r ddogfen hon yn rhoi cyfres o gynghorion doeth i'ch helpu gyda'ch cyfathrebu â'ch aelodau a chynulleidfaoedd ehangach.



Mae cysondeb yn ymwneud â sicrhau bod eich cyfathrebu yn parhau'n gyson â phwy ydych chi fel clwb (gwerthoedd), beth rydych chi'n ei wneud (gwasanaethau) a ble rydych chi'n mynd (uchelgeisiau). Waeth beth fo'r gwahanol blatfformau rydych chi'n eu defnyddio i gyfathrebu â'ch aelodau a'ch cynulleidfa ehangach, dylai'r negeseuon barhau yr un fath. Ceisiwch beidio â chymryd yn ganiataol, oherwydd eich bod wedi rhannu gwybodaeth, ei bod wedi cael ei derbyn neu ei deall. Mae ailadrodd yn ymwneud â chyfathrebu eich neges - drosodd a throsodd.

**Drwy fod yn glir gyda'ch cyfathrebu ni fyddwch yn gadael unrhyw le i gamddealltwriaeth neu newidiadau i'r neges.**

Bydd cyfathrebu cyson a chlr yn helpu i sefydlu eglurder, codi ymwybyddiaeth, a meithrin teyrngarwch. Gall eich helpu i feithrin a chryfhau perthnasoedd a hefyd cynyddu eich ymgysylltu ag aelodau a chynulleidfa ehangach. Heb gyfathrebu cyson a chlr efallai y bydd eich clwb yn ei chael yn anodd cyflawni'r uchelgeisiau a'r nodau a amlinellwyd.





## Byddwch yn glir ynghylch pam

Rhaid i chi wybod pam rydych chi'n cyfathrebu neges neu ddiweddariad penodol. Pam ei bod yn bwysig bod eich cynulleidfa yn cael gwybod am yr wybodaeth yma? A yw'n effeithio arnynt yn uniongyrchol? Oes galw i weithredu? Beth bynnag yw eich rhesymau, gwnewch yn siŵr eich bod chi a'ch cynulleidfa yn gwybod pam fod yr wybodaeth yn cael ei chyfeirio atynt.



## Cadwch at y pwnc

Byddwch yn glir ynghylch beth yn union rydych yn ceisio ei fynegi neu'r neges rydych yn ceisio ei chyfleu. Beth yw'r prif bwynt yr hoffech i'ch cynulleidfa ei gofio neu fynd ag ef gyda nhw?



## Cadwch bethau'n fyr

Cadwch eich brawddegau'n fyr ac yn syml ac osgoi ymadroddion blodeuog. Does dim cyfyngiad ar faint o atalnodau llawn y gallwch eu defnyddio. A chadwch at y rheol un frawddeg, un syniad.



## Defnyddiwch lais gweithredol

Mae llais gweithredol yn cryfhau eich ysgrifennu, yn gwneud datganiadau yn haws eu deall ac yn ennyn diddordeb eich cynulleidfaoedd. Enghraifft o lais goddefol yw, "Anfonwyd y cofnodion gennyf i". Gallwch gyfathrebu hyn yn gliriach ac yn gryno drwy ddweud: "Fi anfonodd y cofnodion".



## Prawfddarllen eich ysgrifennu

Mae atalnodi, sillafu a gramadeg cywir yn hollbwysig. Gofynnwch i rywun ddarllen eich cyfathrebu cyn i chi ei anfon neu ei rannu. Os nad oes neb ar gael, darllenwch ef yn uchel.



## Byddwch yn broffesiynol

Cadwch y cynnwys yn broffesiynol ac osgoi gwneud jôcs. Mae naws broffesiynol, yn enwedig mewn cyfathrebu ffurfiol, yn gwneud i'r darlennydd ymddiried ynoch chi a'ch parchu.



## Ailadrodd, ailadrodd, ailadrodd

Un ffordd yr un mor effeithiol o sicrhau bod eich cynulleidfaoedd yn deall yn union beth rydych chi'n ei gyfathrebu yw ailadrodd eich negeseuon. Gallai hyn fod yn rhannu'r wybodaeth un ffordd sawl gwaith. Neu gallai fod yn rhannu'r un negeseuon ar draws gwahanol blatfformau mewn gwahanol ffyrdd h.y., gallai fod yn raffeg gwybodaeth ar gyfer Facebook, copi ysgrifenedig ar gyfer eich gwefan a fideo byr ar gyfer eich cyfrif twitter.

